



Ein cyf/Our ref KW/00068/20

Y Cyngorydd Edgar Owen
Cadeirydd y Cyngor

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

28 Ionawr 2020

Annwyl Gynghorydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Ionawr, sy'n sôn am benderfyniad diweddar a gymeradwyodd y Cyngor ynghylch addysgu'r anthem genedlaethol mewn ysgolion yng Ngwynedd.

Mae'n hanfodol bod pob dysgwr yng Nghymru yn cael cyfle i ddysgu am ddiwylliant a hanes Cymru, ei thraddodiadau a'i cherddoriaeth. Mae'r rhain yn faterion y gall ysgolion fynd i'r afael â hwy drwy'r cwricwlwm ysgol presennol.

Mae cyflwyno'r cwricwlwm ei hun, y penderfyniadau am union gynnwys y cwricwlwm, a dewis adnoddau i'w gefnogi yn fater i ysgolion a'u cyrff llywodraethu. Mater i'r ysgol yw dewis addysgu'r anthem genedlaethol gyfan ai peidio, ac os yw awdurdodau lleol yn dymuno annog yr ysgolion yn eu hardal i weithredu mewn ffordd debyg i Wynedd maent yn rhydd i wneud hynny.

Byddwn hefyd yn fodlon i'm swyddogion gynnwys erthygl yn Dysg, ein cylchlythyr i ysgolion, yn y cyfnod cyn Dydd Gŵyl Ddewi i dynnu sylw at eich dull gweithredu, ynghyd â dolen i'r anthem genedlaethol gyfan – os ydych yn fodlon â'r awgrym hwn efallai y gall un o'ch swyddogion gysylltu â'm hadran i wneud y trefniadau, cysylltwch â Kerry Davies, kerry.davies@llyw.cymru. Efallai hefyd yr hoffech gysylltu â CLILC i rannu eich dull gweithredu yng Ngwynedd, fel y gall awdurdodau lleol eraill ystyried y mater.

Mae ein cwricwlwm newydd yn cael ei gynllunio gyda phedwar diben allweddol yn ganolog iddo. Un o'r dibenion allweddol hyn yw y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd, gan sicrhau eu bod yn wybodus am ddiwylliant, cymuned a hanes Cymru a'i lle yn y byd ehangach.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i ddull arloesol y cwricwlwm newydd o ymdrin â'r thema "Cynefin" fel y man cychwyn ar gyfer astudio. Bydd yn rhan annatod o bob maes dysgu a phrofiad. Bydd dysgwyr yn cael eu trwytho mewn dealltwriaeth o hunaniaeth, y tirweddau a'r hanesion sy'n ffurfio eu cynefin.

Ni ddylid, ac ni ellir, cyfyngu dadansoddi, deall a chwestiynu hanes a straeon Cymru, ein cymunedau a chymdogion i wersi hanes yn unig. Dylai dealltwriaeth o Gymru, ei diwylliant a'i hanes gael ei chynnwys ar draws yr holl ddysgu, mewn ffordd briodol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read "Kirsty Williams". The signature is fluid and cursive, with the first name "Kirsty" and the last name "Williams" clearly distinguishable.

Kirsty Williams AC/AM

Y Gweinidog Addysg
Minister for Education